

Cynllun Iaith Gymraeg 2023

CITB



CYNNWYS

Rhagair **4**

Cyflwyniad **5**

Deddf yr Iaith Gymraeg 1993	5
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011	5
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	5
Cymraeg 2050	6
Pwrpas y Cynllun hwn	6

Ynglŷn â ni **7**

Ein cenhadaeth	7
CITB Cymru Wales	8
Amrywiaeth a Chydraddoldeb	8

Darpariaeth Gwasanaeth **9**

Safonau Ansawdd	9
Gohebiaeth ysgrifenedig	10
Cyfathrebu dros y ffôn	10
Cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus	11
Cyfarfodydd eraill nad ydynt yn gyhoeddus	12
Cyhoeddusrwydd, cyhoeddiadau a hysbysiadau cyhoeddus	13
Bathodynau 'Iaith Gwaith'	14
Ffurflenni a systemau ar-lein	14
Cyfryngau cymdeithasol	14
Gwefannau	15
Grantiau	15
Gwasanaethau a ddarperir ar ein Rhan Gan Drydydd Parti	16
Partneriaethau	16

Llunio Polisi - corfforaethol a rheoleiddiol **17**

Hunaniaeth Gorfforaethol	17
Polisiau, Deddfwriaeth a Mentrau	18

Safonau Gweithredol **19**

Recriwtio staff ac arferion Adnoddau Dynol	19
Hyfforddiant a sgiliau	20
Cyfleusterau	20
Systemau TG	20

Gweinyddu, monitro ac adolygu'r Cynllun **21**

Trefniadau Gweinyddol	21
Monitro ac Adolygu	22
Cwynion, awgrymiadau a phwynt cyswllt	22

RHAGAIR



Mae CITB wedi bod yn arwain diwydiant adeiladu Prydain o ran denu talent a chefnogi datblygiad sgiliau ers dros hanner can mlynedd, lle mae wedi datblygu fel sefydliad arloesol sy'n datblygu'n barhaus.

Mae hygyrchedd yn ein gwasanaethau a'n hadnoddau wedi bod ar flaen ein agenda erioed, gan sicrhau bod ein holl gwsmeriaid a rhanddeiliaid Cymraeg yn gallu cael mynediad at ein cymorth yn eu hiaith Gymraeg brodorol. Gyda phenderfyniad mawr i gefnogi amgylchedd dwyieithog ac i ddathlu ein diwylliant a'n treftadaeth Gymreig, mae'n bleser gennym gyflwyno Cynllun Iaith Gymraeg newydd CITB.

Er nad oes unrhyw ofynion statudol wedi'u gosod ar CITB eto, gallwn ddisgwyl cael ein cynnwys yn nhrefn Safonau'r Gymraeg yn y dyfodol, fel yr amlinellwyd ym Mesur y Gymraeg 2011. Hyd nes y daw'r adeg hon, hyderwn y bydd y cynllun newydd yn ein paratoi at ddod o dan y safonau yn y dyfodol. Mae ein hymagwedd ragweithiol at greu'r Cynllun newydd yn dangos ein hymrwymiad i'r Gymraeg, gan sicrhau ei bod wrth wraidd popeth a wnawn yng Nghymru.

Mae ein Cynllun yn cydnabod ac yn parchu hunaniaeth ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid, lle byddwn yn ymdrechu i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, gan amlygu cydraddoldeb rhwng y ddwy iaith. Mae'r Cynllun yn nodi sut y bydd y CITB yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaeth o'r ansawdd uchaf i'n cwsmeriaid yng Nghymru.

Bydd y Cynllun yn berthnasol i'r sefydliad cyfan, lle byddwn wedi ymrwmo i gefnogi staff i'w gyflwyno, yn ogystal â chwilio'n barhaus am ffyrdd o wella ein darpariaeth. Edrychwn ymlaen at rannu ein taith gyda chi ar ffurf diweddariadau blynyddol ar ein dilyniant o ran y Gymraeg.

Mark Bodger

Engagement Director Wales
Cyfarwyddwr Ymgysylltu Cymru

Tim Balcon

Chief Executive
Prif Weithredwr

Cafodd y Cynllun Iaith Gymraeg hwn ei gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan adran 14(1) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar 23 Medi 2022.

CYFLWYNIAD

1.1. DEDDF YR IAITH GYMRAEG 1993

Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn rhoi statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg ym mywyd cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n rhoi dyletswydd ar y sector cyhoeddus i drin y ddwy iaith yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi Cynllun Iaith Gymraeg, yn nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.

1.2. MESUR Y GYMRAEG (CYMRU) 2011

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yr iaith Gymraeg fel iaith swyddogol yng Nghymru, ac mae'r Cynllun hwn yn cydnabod hyn.

Mae Adran 113 o'r Mesur yn sefydlu hawliau a rhyddid newydd ar gyfer defnyddwyr yr iaith Gymraeg. Un o'r rhyddid hynny yw'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg gydag eraill yng Nghymru. Bydd CITB felly'n cynnig yr hawl i'r cyhoedd ddewis pa iaith i'w defnyddio pan maent yn delio â CITB a bydd hefyd yn gweithredu'r egwyddor hon ynghylch disgwyliadau'r cyrff y mae CITB yn ymwneud â hwy.




1.3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae CITB hefyd yn ystyried y nodau lles a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ym mhob un o'i chamau gweithredu, yn benodol: 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg'.

Bydd y Cynllun hwn yn cefnogi'r Gymraeg drwy 'ddatblygu sgiliau, cynyddu cyfleoedd a pharchu ein statws fel cenedl ddwyieithog' – gan helpu Llywodraeth Cymru i gyrraedd targed 2050 a fydd yn y pen draw yn cryfhau hunaniaeth ac unigrywiaeth Cymru.

Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu sut mae CITB yn chwarae rhan yn y nod lles penodol hwnnw, gan sicrhau cyfle a hawl i ddinasyddion Cymru ymgysylltu â ni yn eu dewis iaith, boed yn Gymraeg neu'n Saesneg.



YNGLŶN Â NI

CITB yw Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Ein swydd ni yw helpu'r diwydiant adeiladu i ddenu talent ac i gefnogi datblygiad sgiliau, i adeiladu Prydain well. Ein pwrpas yw cefnogi'r diwydiant adeiladu i gael gweithlu **medrus, cymwys a chynhwysol**, nawr ac yn y dyfodol.

1.6. EIN CENHADAETH

Ein cenhadaeth yw denu a chefnogi datblygiad pobl i adeiladu Prydain well. Rydym yn denu pobl i weithio yn y diwydiant adeiladu a chefnogi eu hyfforddiant gyda'r sgiliau a'r cymwysterau sydd o bwys. Ein blaenoriaethau yw Gyrfaoedd, Hyfforddi a Datblygu, a Safonau a Chymwysterau.

Mae ein blaenoriaethau'n seiliedig ar ein rhaglen ymchwil amrywiol, sy'n cynyddu ein dealltwriaeth o heriau'r diwydiant adeiladu. Rydym yn helpu i arwain buddsoddiad mewn sgiliau adeiladu fel blaenoriaeth trwy ein partneriaeth gyda llywodraeth leol a chenedlaethol.

Mae ein hystod o gyllid yn cefnogi cyflogwyr o bob maint i fuddsoddi mewn prentisiaid a chymwysterau; cefnogi cyflogwyr llai i fuddsoddi mewn hyfforddiant sy'n benodol i gwmni a buddsoddi mewn rhaglenni ar gyfer y diwydiant yn ehangach i fynd i'r afael â materion mawr megis gyrfaoedd a darpariaeth hyfforddiant.

Rydym yn denu pobl i weithio yn y diwydiant adeiladu a chefnogi eu hyfforddiant gyda'r sgiliau a'r cymwysterau sydd o bwys.



1.7. CITB CYMRU WALES

Mae ein gwaith gyda Llywodraeth Cymru, sef, sicrhau bod y diwydiant adeiladu yn cael ei weld fel sector o flaenoriaeth ar draws tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. Golyga hyn ein bod wedi sicrhau cyllid gan y llywodraeth ar gyfer Addysg Bellach a darpariaeth prentisiaethau sy'n bodloni anghenion cyflogwyr. Rydym hefyd yn dylanwadu ar Lywodraeth Cymru ar ran y sector i sicrhau bod y diwydiant adeiladu'n cael cefnogaeth fel rhan o sylfaen yr economi.

Rydym yn chwarae rhan allweddol mewn ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ac yn rhoi tystiolaeth ar ran y diwydiant. Rydym yn cyflwyno'r achos ar gyfer y diwydiant adeiladu, gan sicrhau bod y sector yn cael ei ystyried wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth mewn ystod o feysydd gan gynnwys sgiliau, addysg, cynaliadwyedd, trafnidiaeth, tai a'r Gymraeg.

1.8. AMRYWIAETH A CHYDRADDOLDEB

Nod CITB yw arwain y sector adeiladu trwy esiampl i sicrhau tegwch, cynhwysiant a pharch at bawb. Ein prif nod yw creu diwylliant sy'n helpu cwsmeriaid i ymdrechu tuag at weithlu sy'n adlewyrchu'n cymdeithas ni heddiw.

Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu sut rydym am sicrhau hawliau siaradwyr Cymraeg i ymarfer eu dewis iaith wrth ddelio â CITB. Mae'n ymrwmo i warchod a sicrhau hawliau unigolion (gan gynnwys staff) sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd, ac i wneud hynny heb gael eu herio.

Nod CITB yw arwain y sector adeiladu trwy esiampl i sicrhau tegwch, cynhwysiant a pharch at bawb.



DARPARIAETH GWASANAETH

DARPARU GWASANAETH – Y RHYNGWYNEB CYHOEDDUS

Fel elusen a chorff cyhoeddus anadrannol, mae'r holl wasanaethau a ddarperir gan CITB wedi'u hanelu'n uniongyrchol at ein rhanddeiliaid, sydd hefyd yn cynnwys y cyhoedd¹:

Ffocws allweddol y Cynllun hwn yw tynnu sylw at bwysigrwydd cyfathrebu effeithiol gyda chydweithwyr o sefydliadau eraill o fewn y diwydiant sgiliau adeiladu a chynrychiolwyr lleol, a datblygu ein perthnasoedd gwaith gyda'n holl rhanddeiliaid yn eu hieithoedd brodorol.

1.9. SAFONAU ANSAWDD

Mae'r gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg o ansawdd cyfartal ac fe'u darperir o fewn yr un amserlen.

Pan fyddwn ni'n asesu a mesur safonau ac effeithiolrwydd gwasanaeth yn Gymraeg, bydd CITB yn defnyddio'r un 'dangosydd perfformiad' a'r un a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau Saesneg.



¹ Mae'r term 'cyhoeddus' yn golygu unrhyw unigolyn nad ydynt yn cyflawni swyddogaethau awdurdod cyhoeddus ar y pryd, 3.1 - Cod Ymarfer ar gyfer Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) Rheoliadau 2015.

1.10. GOHEBIAETH YSGRIFENEDIG

Byddwn ni'n sicrhau'r canlynol:

Ein bod yn croesawu cyfathrebiadau yn Gymraeg neu Saesneg.

Pan fyddwn ni'n dechrau gohebiaeth gydag unigolyn, grŵp neu sefydliad yng Nghymru, mae'r ohebiaeth yn ddwyieithog, oni bai ein bod yn ymwybodol o'u dewis iaith. Bydd CITB yn cofnodi dewis iaith unigolion. Bydd unrhyw ohebiaeth ddilynol yn cael ei chyhoeddi yn ôl dewis iaith gychwynnol yr unigolyn/sefydliad.

Byddwn ni'n ateb unrhyw gyfathrebiadau a ddaw i law yn Gymraeg drwy'r Gymraeg, ac mae ein hamser targed ar gyfer ymateb yr un fath yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebiaeth yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

Yn dilyn sgwrs ar y ffôn neu wyneb yn wyneb yn Gymraeg neu gyfarfod lle sefydlir mai Cymraeg yw dewis iaith unigolyn, er nad yw'r sgwrs wedi'i chynnal trwy'r Gymraeg, bydd pob gohebiaeth yn Gymraeg.

Anfonir gohebiaeth safonol neu gylchlythyr yng Nghymru yn ddwyieithog.

Bydd gohebiaeth ar gael yr un pryd yn y ddwy iaith. Os nad, byddwn ni'n cyfieithu'r ohebiaeth fel sydd ei angen er mwyn ymateb i ohebiaeth yn brydlon ac yn yr iaith wreiddiol.

Bydd gohebiaeth, deunydd marchnata a hyrwyddo ac unrhyw wybodaeth safonol arall a ddarperir gan CITB yn ddwyieithog yng Nghymru a byddant yn cynnwys datganiad yn y ddwy iaith gan wneud yn glir ein bod yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Os ydym ni'n creu fersiynau cyfatebol Cymraeg a Saesneg o ohebiaeth, byddwn ni'n trin y Gymraeg yr un fath â'r Saesneg (er enghraifft, cynnwys llofnod electronig, logo, gwybodaeth cyfryngau cymdeithasol).

1.11. CYFATHREBU DROS Y FFÔN

Byddwn ni'n darparu dewis iaith i'r rheiny sy'n cysylltu â CITB Cymru dros y ffôn, fel a ganlyn:

Rydym yn croesawu galwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg.

Bydd staff CITB yn ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog a byddant yn cynnig dewis iaith. Bydd staff nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cael arweiniad ar sut i ddelio â galwadau ffôn Cymraeg (e.e. rhoi cyfeirlyfr mewnol o'r holl staff sy'n siarad Cymraeg y gellir trosglwyddo'r alwad iddynt).

Bydd unrhyw ganolfannau galwadau canolog sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer neu ar ran CITB yn darparu opsiwn i'r rhai sy'n dymuno siarad Cymraeg gael eu trin yn briodol.

Os nad oes siaradwr Cymraeg cymwys ar gael i ddelio â'r ymholiad, bydd y sawl sy'n ffonio'n cael dewis rhwng cael siaradwr Cymraeg yn ei ffonio'n ôl cyn gynted ag y bo modd, parhau â'r alwad yn Saesneg, neu gyflwyno ei ymholiad yn Gymraeg yn ysgrifenedig.

Dyletswydd y rhai sy'n ymateb i alwadau ffôn ar ran CITB yw sicrhau nad ydynt yn gwneud i'r rhai sy'n ffonio teimlo poendod neu eu bod yn creu anghyfleustra oherwydd eu dymuniad i gyfathrebu'n Gymraeg.

Bydd holl gyfarwyddiadau a negeseuon llais yn cael eu recordio'n ddwyieithog ar yr holl rifau a hysbysebiri yng Nghymru gyda'r recordiadau yn nodi y gellir gadael neges yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Ni fydd gwahaniaeth yn yr amser ateb rhwng ymholiadau ffôn Cymraeg ac ymholiadau ffôn Saesneg.



1.12. CYFARFODYDD A DIGWYDDIADAU CYHOEDDUS

Gan y bydd CITB yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru, croesewir cyfraniadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd hyn yn cael ei ddatgan yn glir ar bob hysbysiad sy'n hysbysu neu'n rhoi cyhoeddusrwydd i'r cyfarfod a bydd mynychwyr hefyd yn cael gwybod am y dewis iaith hon ar ddechrau'r cyfarfod.

Bydd unrhyw ddeunyddiau ysgrifenedig megis taflenni, cyhoeddiadau, agenda neu gofnodion a ddefnyddir gan CITB mewn cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog. Bydd hyn hefyd yn cynnwys unrhyw gyflwyniadau PowerPoint (neu fformat arall).

Byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg mewn cyfarfodydd yng Nghymru sy'n agored i'r cyhoedd, os:

- Mae o leiaf 10% o'r bobl sy'n mynychu wedi rhoi gwybod i ni ymlaen llaw eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod;
- Bod cyfranwyr y cyfarfodydd yn siaradwyr Cymraeg. Byddwn ni'n annog staff sy'n siarad Cymraeg a chyfranwyr sy'n siarad Cymraeg i gyfrannu'n Gymraeg.

Byddwn yn sicrhau pan fo unigolyn yn cofrestru i fod yn bresennol mewn cyfarfod cyhoeddus CITB yng Nghymru y bydd datganiad megis 'Tick the box if you'd like to contribute in Welsh / Ticiwch y bocs os hoffech c hi gyfrannu yn y Gymraeg' i annog cyfraniadau yn y ddwy iaith.

Os yw'r trefnydd yn gwybod o flaen llaw pwy sy'n mynychu'r cyfarfod ac os oes rhai o'r mynychwyr yn dymuno siarad Cymraeg, bydd y trefnydd a'r Cynghorydd ar Bolisi'r Iaith Gymraeg yn penderfynu ar sail eu dealltwriaeth p'un ai y bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael neu beidio. Bydd y penderfyniad hwnnw'n seiliedig ar natur y cyfarfod, lleoliad daearyddol, mynychwyr posibl a phrofiad blaenorol o gyfarfodydd tebyg. Os oes dal ansicrwydd mawr, bydd y penderfyniad o blaid darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

Rhoddir arweiniad i gadeiryddion cyfarfodydd cyhoeddus nad ydynt yn siarad Cymraeg ar sut i hwyluso cyfraniadau a wneir yn Gymraeg.

Os yr ydym ni'n trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddiwyddiad cyhoeddus, byddwn ni'n sicrhau na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hyrwyddo'r digwyddiad ac yn ystod y digwyddiad (er enghraifft, yn y modd y caiff y digwyddiad ei farchnata, y gwasanaethau a gynigir i bobl sy'n mynychu'r digwyddiad ynghylch yr arwyddion a geir yn y digwyddiad).



1.13. CYFARFODYDD ERAILL NAD YDYNT YN GYHOEDDUS

Mae croeso i unrhyw un sy'n dymuno cynnal cyfarfodydd preifat neu un-i-un gyda CITB wneud hynny yn Gymraeg neu Saesneg.

Cynigir dewis iaith wrth drefnu cyfarfodydd, ac os mai'r Gymraeg yw'r cyfrwng y gofynnir amdano, gwneir trefniadau gydag aelod priodol o staff sy'n siarad Cymraeg.

Drwy gynnig dewis iaith, mae CITB Cymru yn cydnabod:

- Bod unigolion yn gallu mynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith
- Bod galluogi unigolion i ddefnyddio eu dewis iaith yn fater o arfer da ac nid yn gyfaddawd
- Bod grymuso unigolion i ddefnyddio eu dewis iaith yn rhan hanfodol o'r broses gyfathrebu o fewn y sefydliad.



1.14. CYHOEDDUSRWYDD, CYHOEDDIADAU A HYSBYSIADAU CYHOEDDUS

Bydd CITB yn cynnal marchnata a gweithgareddau cyhoeddusrwydd yng Nghymru yn ddwyieithog trwy sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal.

Bydd y canlynol yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Holl lenyddiaeth cyhoeddusrwydd ar gyfer y cyhoedd
- Postio/ e-bostio uniongyrchol gan gynnwys deunydd hyrwyddo ac arolygon
- Marchnata'r cyfryngau/ wasg
- Arolygon cyhoeddus
- Ymgyrchoedd marchnata uniongyrchol (gan gynnwys enw'r ymgyrch)
- Arddangosfa a stondin gwybodaeth
- Poster marchnata

Bydd CITB yn ceisio sicrhau presenoldeb o leiaf un aelod o staff sy'n siarad Cymraeg i groesawu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ymhob un o'i weithgareddau cyhoeddus. Byddent yn gwisgo bathodynau neu gortynnau 'laith Gwaith' i ddangos eu bod yn gallu cyfathrebu drwy'r Gymraeg neu'n dysgu.

Bydd CITB yn sicrhau bod hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff mewn papurau newydd Saesneg neu gyfrwng arall tebyg sy'n cael eu dosbarthu yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru yn ddwyieithog neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Mewn cyhoeddiadau Cymraeg, bydd hysbysiadau yn Gymraeg yn unig.

Bydd holl gyhoeddiadau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog a byddwn ni'n gwneud y canlynol:

- Cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen ddwyieithog ar gyfer CITB. Os nad yw hyn yn bosibl (e.e., oherwydd eu natur swmpus) caiff dau fersiwn gwahanol ei gyhoeddi
- Pan gaiff fersiynau Cymraeg a Saesneg eu cyhoeddi ar wahân byddwn ni'n sicrhau eu bod yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd

**Bydd CITB yn cynnal
marchnata a gweithgareddau
cyhoeddusrwydd yng
Nghymru yn ddwyieithog
trwy sicrhau bod y ddwy iaith
yn cael eu trin yn gyfartal.**

Os yn ansicr, dylai staff gysylltu â'r Cynghorydd ar Bolisi'r Iaith Gymraeg er mwyn adnabod yn wrthrychol pryd y dylid cyhoeddi cyhoeddiadau a deunyddiau yn Gymraeg.

Mae cyhoeddiadau a deunyddiau ysgrifenedig yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i daflenni gwybodaeth, tystysgrifau, dogfennau ymgyngori, posteri, dogfennau cyfarwyddyd, cardiau cynnwys cyfryngau cymdeithasol, pecynnau cymorth a chylchlythyrau. Mae dogfennau neu eitemau ar y we neu sydd ar gael yn electronig hefyd yn gynwysedig, os ydynt yn bodoli mewn fformat copi caled ai peidio.

Bydd pob cyhoeddiad dwyieithog neu fersiwn Cymraeg ar wahân yn cael eu prawf ddarllen gan unigolyn priodol (e.e., y Cyfieithydd neu Gynghorydd ar Bolisi'r Iaith Gymraeg) er mwyn sicrhau cysondeb yn safonau'r Gymraeg.

Byddwn ni'n hyrwyddo argaeledd pob cyhoeddiad Cymraeg trwy'r sianeli sydd ar gael i ni (ein gwefan cyhoeddus a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol yn bennaf).

Bydd yr holl ddatganiadau a hysbysiadau i'r wasg a'r cyfryngau yng Nghymru yn cael eu hanfon yn ddwyieithog.

Ble bo'n bosibl, byddwn ni'n sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael i ymgymryd â chyfweliad gyda'r wasg a'r cyfryngau darlledu Cymraeg.

1.15. BATHODYNNAU 'IAITH GWAITH'

Anogir staff a dysgwyr CITB sy'n siarad Cymraeg i wisgo bathodynau 'Iaith Gwaith' Comisiynydd y Gymraeg. Mae hyn er mwyn helpu cwsmeriaid i adnabod siaradwyr Cymraeg (yn bennaf pan fyddant allan mewn digwyddiadau cyhoeddus). Caiff staff hefyd eu hannog i ddefnyddio logo 'Iaith Gwaith' ar eu llofnod e-bost awtomatig. Bydd y rhain ar gael gan y Cynghorydd ar Bolisi'r Iaith Gymraeg.

1.16. FFURFLENNI A SYSTEMAU AR-LEIN

Byddwn yn sicrhau bod pob ffurflen (gan gynnwys ffurflenni digidol a gyhoeddir ar ein gwefannau) a deunydd eglurhaol cysylltiedig at ddefnydd y cyhoedd yng Nghymru:

- Yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog mewn un ddogfen ddwyieithog neu mewn un lle (e.e. ar yr un dudalen ar y wefan neu mae modd toglo'n uniongyrchol o un iaith i'r llall);
- Pan fo fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar wahân (e.e. oherwydd eu natur swmpus) bydd y ddau fersiwn o'r un safon, ar gael ar yr un pryd, yr un mor hygyrch â'i gilydd a bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

1.17. CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Rydym ni'n cydnabod bod ymgysylltu â'r cyhoedd yn digwydd fwyfwy ar y cyfryngau cymdeithasol. Wrth ddefnyddio'r sianeli hyn i gyfathrebu â'r cyhoedd, bydd yr holl gynnwys sy'n berthnasol i Gymru a'r negeseuon yn cael eu hadlewyrchu'n gyfartal ar y cyfryngau cymdeithasol.

Dylai cynnwys (boed yn barhaol neu dros dro), negeseuon ac adnoddau a ddefnyddir ar y cyfryngau cymdeithasol fod yn gyfartal o ran amlygrwydd, ymddangosiad a buddsoddiad (yn ariannol ac fel arall) yn y ddwy iaith.

Os oes sianeli Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, Twitter), byddwn ni'n darparu cyswllt uniongyrchol i'r cyfrif Cymraeg o'r cyfrif Saesneg ac yn ymrwmo i hyrwyddo'r sianeli Cymraeg ar sianeli cyfatebol Saesneg.

Os byddwn ni'n sefydlu unrhyw sianeli dwyieithog, byddwn ni'n sicrhau bod y cynnwys Cymraeg yn cael ei gyhoeddi fel ei fod yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. Hefyd, wrth greu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol newydd, byddwn ni'n sicrhau bod enwau'r cyfrifon ar gael yn Gymraeg.

Wrth gyhoeddi dolenni mewn cynnwys ar gyfryngau cymdeithasol Cymraeg, byddwn ni'n sicrhau eu bod yn cysylltu ag adnoddau neu wybodaeth Gymraeg (os ydynt yn bodoli), er enghraifft tudalennau ar ein gwefan.

Wrth ddefnyddio hashnod sydd wedi'u datblygu'n fewnol, byddwn ni'n creu hashnod Cymraeg addas ac ymarferol sydd â'r un perthnasedd ac effaith â'r Saesneg. Byddwn ni hefyd yn sicrhau, wrth dagio sefydliadau/ partneriaid/ rhanddeiliaid eraill, ein bod yn tagio'r cyfrif Cymraeg os oes un ar gael.

Dylai unrhyw gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol Cymraeg adlewyrchu materion sy'n berthnasol i Gymru, ac nid adlewyrchiad o gynnwys y Deyrnas Unedig gyfan yn unig. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau, gwyliau a gofynion defnyddwyr sy'n benodol i Gymru.



1.18. GWEFANNAU

Mae prif wefan CITB (<https://www.citb.co.uk/cy-gb/>) ac Am Adeiladu (<https://www.goconstruct.org/cy-gb/>) wedi cael eu datblygu'n ddwyieithog gyda'r gallu i doglo'n uniongyrchol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Dylai unrhyw gynnwys neu ddatblygiadau i wefannau CITB yn y dyfodol, a microwefannau cyfredol, gael eu gweithredu'n ddwyieithog. Yr eithriad presennol i hyn yw os yw'r deunyddiau'n berthnasol i'r Alban neu Loegr yn unig.

Byddwn ni'n sicrhau bod pob dogfen megis adroddiad lefi, ffurflenni prentisiaeth ayb ac adroddiadau sydd ar y wefan yn ddwyieithog a'u bod ill dau'r un mor hawdd i'w lawr lwytho.

Bydd tudalennau gwe Cymraeg a Saesneg yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'r un pryd.

Bydd pob deunydd a darpariaeth yn Gymraeg a Saesneg yn gyson o ran cael eu diweddarau, cywirdeb, amlygrwydd, eglurder ac ansawdd.

Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu ddatblygu ein gwefannau presennol, byddwn yn ystyried y canllawiau canlynol:

- Canllawiau Comisiynydd y Gymraeg: Technoleg, Gwefannau a Meddalwedd: Ystyried y Gymraeg Technology, Websites and Software: Welsh Language Considerations <https://www.welshlanguagecommissioner.wales/media/lxechbz0/technoleg-gwefannau-a-meddalwedd-technology-websites-and-software.pdf>
- Pecyn Cymorth Technoleg ddwyieithog Llywodraeth Cymru [pecyn cymorth technoleg ddwyieithog ar gyfer profiad defnyddiwr da](#)

Bydd Cyfieithydd CITB yn datblygu a mireinio rhestr o dermau adeiladu. Bydd y rhestr termau hon yn cael ei safoni'n allanol gyda'r Porth Termau Cenedlaethol Cymraeg. Rydym ni'n ymrwymo i ddiweddarau a mireinio'r derminoleg hon yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn ddefnyddiol ac yn gywir i randdeiliaid, gan sicrhau bod CITB yn gosod y safon mewn perthynas â therminoleg adeiladu. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg Llywodraeth Cymru: 'Cefnogaeth hirdymor i ddatblygu seilwaith ieithyddol y Gymraeg, gan gynnwys corpora, geiriaduron ac adnoddau terminoleg'.

1.19. GRANTIAU

Mae grantiau CITB yn cefnogi cyflogwyr sy'n darparu hyfforddiant o ddydd i ddydd i'w gweithlu, lle maent yn cyfrannu at gost hyfforddi a chymhwysu'r gweithlu mewn pynciau sy'n ymwneud ag adeiladu.

Rhoddir gwybod i ymgeiswyr y gallant gyflwyno eu ceisiadau yn Gymraeg neu Saesneg.

Bydd unrhyw geisiadau grant a dderbynnir yn Gymraeg yn cael eu hateb yn Gymraeg a byddant yn cael gwybod am y penderfyniad yn Gymraeg.

Bydd CITB yn sicrhau nad yw ceisiadau am grantiau yn y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac yn gweithredu'r un terfynau amser wrth weinyddu grantiau ym mha bynnag iaith y'u cyflwynir.



1.20. GWASANAETHAU A GYFLENWIR AR EIN RHAN GAN DRYDYDD PARTI

Mae unrhyw gytundebau neu drefniadau a wnawn gyda thrydydd parti sy'n berthnasol i ddarpariaeth gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru yn gyson â thelerau'r Cynllun hwn. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau newydd neu gyfredol a gaiff eu contractio allan.

Bydd CITB hefyd yn sicrhau trwy drefniadau contractio y gall, ac y bydd yr asiant, y Contractwr neu'r is-contractwr yn gweithredu unrhyw elfennau perthnasol o Gynllun CITB ei hun wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd ar ei ran neu o dan ei oruchwyliaeth.

Bydd CITB yn gweithio gyda darparwyr i annog gweithrediad eu Cynlluniau Iaith Gymraeg eu hunain.

Bydd rhaid i drydydd parti gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â mesurau perthnasol Cynllun Iaith CITB trwy e-bost neu lythyr.

Bydd dogfennau tendro, contractau a chytundebau yn ei gwneud yn glir i drydydd parti na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Byddwn yn monitro'r gwasanaethau a ddarperir gennym ni a thrydydd parti i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r ymrwymadau uchod.

Bydd CITB yn cyhoeddi canllawiau ysgrifenedig i staff ar gyfer delio ag asiantau a chontractwyr ac yn dyfeisio prosesau i sicrhau bod staff yn cadw atynt.

1.21. PARTNERIAETHAU

Pan fo CITB yn arweinydd strategol ac ariannol mewn partneriaeth bydd yn sicrhau bod darpariaeth gwasanaeth i'r cyhoedd yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg.

Pan fo CITB yn ymuno â phartneriaeth lle mae corff arall yn arwain, bydd mewnbyn CITB yn y bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg a bydd CITB yn hybu cyrff eraill i gydymffurfio hefyd.

Pan fo CITB yn bartner mewn consortiwm, bydd yn hybu'r consortiwm i fabwysiadu polisi dwyieithog. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r consortiwm, bydd y sefydliad yn gweithredu mewn perthynas â'i Gynllun Iaith Gymraeg.

Pan fo CITB yn ymuno neu'n ffurfio partneriaeth yng Nghymru, bydd yn gofyn i'w bartneriaid arfaethedig am eu Cynllun Iaith Gymraeg, Polisiâu Iaith neu'r modd y byddent yn gweithio'n ddwyieithog. O fewn unrhyw bartneriaeth, bydd CITB yn cynnig cyngor a chefnogaeth i sefydliad y partner arall.

Bydd CITB yn gweithio mewn partneriaeth â'r diwydiant adeiladu, AB, AU a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i hyrwyddo'r iaith o fewn y sector ac annog dysgu a defnyddio'r Gymraeg.

LLUNIO POLISI – CORFFORAETHOL A RHEOLEIDDIOL

1.22. HUNANIAETH GORFFORAETHOL

Mae gennym hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yng Nghymru. Mae ein henw, manylion cyswllt, cyfeiriad gwe, is-bennawd a gwybodaeth sylfaenol arall yn ymddangos yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog ar ein holl ddeunyddiau sy'n dangos ein hunaniaeth gorfforaethol.

Mae hyn yn cynnwys papurau ysgrifennu a deunyddiau megis cardiau busnes, papur pennawd, gwahoddiadau, baneri arddangos a holl ddeunyddiau marchnata cyhoeddus.



1.23. POLISIÂU, DEDDFWRIAETH A MENTRAU

Wrth ddatblygu polisiâu a mentrau newydd, neu ddiwygio rhai presennol byddwn ni'n gwneud ycanlynol:

Asesu effeithiau posibl (boed yn gadarnhaol neu'n negyddol) unrhyw bolisiâu neu fentrau newydd/ diwygiedig ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sicrhau bod polisi neu fenter newydd a chodau ymarfer yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ac yn gofyn i staff ystyried y Gymraeg o'r cychwyn cyntaf/ dechrau unrhyw broses.

Sicrhau bod y mesurau a geir yn y Cynllun hwn yn cael eu rhoi ar waith wrth greu polisiâu neu fentrau newydd a chodau ymarfer i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Bydd y dogfennau canlynol sy'n berthnasol i Gymru yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg os ydynt ar gael i'r cyhoedd: polisiâu, strategaethau, adroddiadau blynyddol, cynlluniau corfforaethol, canllawiau, codau ymarfer a phapurau ymgynghori².

Pan fyddwn ni'n comisiynu neu'n ymgymryd ag ymchwil â'r nod o'n helpu i wneud penderfyniad ynghylch polisi, byddwn ni'n sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried yr effeithiau (boed yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sicrhau nad oes yr un polisi neu fenter yn tansellio Cynllun Iaith Gymraeg CITB na Chynllun Iaith darparwyr eraill i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sicrhau nad y rhai sy'n creu polisi (yng Nghymru a thu hwnt) yn unig a fydd yn ymwybodol o'r Cynllun ac o gyfrifoldebau CITB o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg 2011, ond y bydd holl staff angenrheidiol a pherthnasol, partneriaid a thrydydd parti CITB hefyd yn ymwybodol o'r Cynllun.

Ymgynghori â Chynghorydd ar Bolisi'r Iaith Gymraeg am arweiniad a chynghor pan fo angen, a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Bydd asesu effeithiau posibl unrhyw bolisi a mentrau newydd/ diwygiedig yn rhan o asesiad effaith cyfunol lle bydd cwestiynau penodol yn cael eu gofyn am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

² Safon 44: Cod Ymarfer ar gyfer Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.



SAFONAU GWEITHREDOL

1.24. RECRIWTIO STAFF AC ARFERION ADNODDAU DYNOL

Bydd holl staff newydd sy'n gweithio yng Nghymru, neu'n gweithio ar ddeunyddiau sy'n berthnasol i Gymru yn cael sesiwn ymwybyddiaeth iaith ddechreuol fel rhan o'u hyfforddiant ymsefydlu. Byddent hefyd yn cael gwybodaeth ychwanegol am ein Cynllun Iaith Gymraeg, yn benodol yr adrannau sy'n berthnasol i'w gwaith a'u tîm. Bydd y Cynghorydd ar Bolisi'r Iaith Gymraeg hefyd yn sicrhau sesiynau ymwybyddiaeth ddilynol yn aml gyda thimau perthnasol.

Byddwn ni'n cynnal sesiynau ymwybyddiaeth ar ddarpariaethau'r Gymru Cynllun Iaith ar gyfer staff sy'n gweithio y tu allan i Gymru ac yn cynnwys yr iaith Gymraeg yn rhan o'r cynllun sefydlu corfforaethol ar gyfer pob staff newydd.

Bydd CITB yn sicrhau canran briodol o siaradwyr Cymraeg ymhlith ei weithlu fel y gall defnyddwyr gwasanaeth arfer dewis iaith wrth gyfathrebu ar bob lefel. Cyfrifoldeb Cyfarwyddwr Ymgysylltu Cymru/ Rheolwr Rhanbarthol, ynghyd â'r Arweinydd Tîm perthnasol a'r Cynghorydd ar Bolisi'r Iaith Gymraeg, yw pennu a yw swydd yn CITB Cymru yn gofyn am y Gymraeg fel rhinwedd hanfodol neu ddymunol.

Ar gyfer swyddi lle mae siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol, bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y swydd ddisgrifiad. Mae'n rhaid cynnwys y Cynghorydd ar Bolisi'r Iaith Gymraeg wrth bennu a yw swydd yn gofyn am sgiliau Cymraeg, ac i ba lefel o hyffredded.

Pan fo'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol, caiff hyn ei nodi yng nghymwyseddau swydd a hysbysiadau, gydag eglurhad pam ei fod yn ofynnol.

Caiff y gallu i siarad Cymraeg ei ystyried fel un o'r nifer o alluoedd wrth lenwi swyddi gwag sy'n codi. Ymhob ymarferion recriwtio caiff pob ymgeisydd ei drin yn gyfartal yn unol â pholisi cyfleoedd cyfartal CITB.

Aradegau gall fod yn anodd penodi rhywun di-Gymraeg i swydd lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol. Fodd bynnag, ni fydd CITB yn penodi rhywun nad yw'n siarad Cymraeg i swydd ble mae'r Gymraeg yn 'hanfodol'. Bydd swyddi o'r fath yn cael eu hysbysebu a'u cynnig ar y ddealltwriaeth bod gan yr ymgeisydd y sgiliau hynny ar ddiwrnod cyntaf ei gyflogaeth. Os yw sgiliau Cymraeg yn 'ddymunol' ar gyfer swydd wag, bydd CITB yn cefnogi gweithwyr i gyrraedd lefel foddhaol o ruglder o fewn amserlen resymol benodol. Y lefel rhuglder a nodir bydd yr hyn sydd ei angen i gyflawni cyfrifoldebau'r swydd, a bydd hyn yn cael ei wneud yn glir i ymgeiswyr yn y manylion swydd, ynghyd â chefnogaeth gan CITB ar gyfer dysgu'r iaith.

Bydd pob disgrifiad swydd, pecynnau ymgeiswyr a hysbysebion swyddi ar gyfer bob swydd CITB Cymru a gaiff ei hysbysebu'n allanol, yn ymddangos yn ddwyieithog. Mae CITB Cymru yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg ar gyfer pob swydd wag. Fel rhan o'r broses recriwtio, bydd iaith y cyfweliad yn adlewyrchu'r anghenion ieithyddol a nodwyd yng ngofynion y swydd. Os oes gofynion iaith Gymraeg, caiff ymgeiswyr eu profi ar eu gallu i weithio drwy'r Gymraeg trwy dull priodol. Lle pennir y Gymraeg fel un o ofynion hanfodol swydd, bydd o leiaf un o aelod o'r panel cyfweld yn siarad Cymraeg.

Pan fo ymgeisydd yng Nghymru yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweliad neu asesiad, byddwn ni'n darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer y cyfweliad neu asesiad (os na fyddwn yn cynnal y cyfweliad neu'r asesiad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu ar y pryd).

Pan fyddwn ni'n hysbysu unigolyn o'n dewis mewn perthynas â'r cais am swydd, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg os yw'r cais wedi'i wneud yn Gymraeg.

1.25. HYFFORDDIANT A SGILIAU

Caiff staff ac aelodau CITB eu hannog i ddysgu Cymraeg ac i wella eu galluoedd Cymraeg (siarad ac ysgrifennu). Bydd CITB Cymru yn eu cefnogi i wneud hyn, yn ariannol ac wrth neilltuo amser.

Rhoddir blaenoriaeth mewn perthynas ag anghenion y busnes, i'r rhai sydd â chyswllt helaeth a rheolaidd gyda'r cyhoedd neu'n delio â siaradwyr Cymraeg fel rhan o'u gwaith.

Bydd hyfforddiant Cymraeg galwedigaethol yn cael ei gynnig i staff CITB. Mae hyn yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol. Bydd pob lefel yn cael ei gynnig: Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch a Hyfedredd - a bydd mynediad ato trwy'ch porth dysgu. Dylid anfon ymholiadau at translation@citb.co.uk.

1.26. CYFLEUSTERAU

Bydd CITB yn sicrhau bod arwyddion newydd neu arwyddion sy'n cael eu cyfnewid, arwyddion parhaol a dros dro, gan gynnwys arwyddion electronig yng Nghymru yn ddwyieithog.

Bydd CITB yn sicrhau trin testun Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran maint, eglurder ac amlygrwydd (hyd yn oed os ydynt yn arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân).

Bydd pob arwydd Cymraeg a dwyieithog yn cael ei gwirio gan unigolyn priodol er mwyn sicrhau cysondeb yn safon y Gymraeg.

1.27. SYSTEMAU TG

Bydd Cysill a Cysgair (cymorth gramadeg a chyfieithu a meddalwedd Thesawrws Cymraeg), Microsoft Office Word Cymraeg ac unrhyw gymorth arall y mae siaradwyr Cymraeg eu hangen i wneud eu gwaith o ddydd i ddydd ar gael i'w gosod i gynorthwyo staff.

Pan fo dulliau cyfathrebu a storio newydd yn cael eu gosod ar gyfrifiaduron CITB, bydd gallu'r feddalwedd i ddelio â mwy nag un iaith o ran gorchymyn a chofnodi yn ffactor a gaiff ei ystyried wrth brynu meddalwedd newydd, yn benodol os yw'r systemau hyn i fod i gynnig gwasanaeth/ allbwn dwyieithog.

Caiff staff ac aelodau CITB eu hannog i ddysgu Cymraeg ac i wella eu galluoedd Cymraeg (siarad ac ysgrifennu). Bydd CITB Cymru yn eu cefnogi i wneud hyn, yn ariannol ac wrth neilltuo amser.

GWEINYDDU, MONITRO AC ADOLYGU'R CYNLLUN

1.28. TREFNIADAU GWEINYDDOL

Mae gan y mesurau yn y Cynllun hwn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn ein sefydliad.

Y Cynghorydd ar Bolisi'r Iaith Gymraeg fydd yn gyfrifol am weithredu cydymffurfiaeth â'r Cynllun a bydd pob rheolwr hefyd â chyfrifoldeb o weithredu'r agweddau hynny o'r Cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith.

Bydd CITB yn sicrhau bod pob aelod o staff yng Nghymru a'r rhai sy'n delio â Chymru yn derbyn arweiniad ar y Cynllun a chynghor ar yr hyn y disgwylir ganddynt.

Mae'n rhaid i bob cyfieithwr a ddefnyddir gan CITB gael eu cymeradwyo gan y Cynghorydd ar Bolisi'r Iaith Gymraeg a'r Cyfieithydd i sicrhau bod ganddynt gymwysterau addas i allu darparu gwasanaeth o'r radd flaenaf.

I hwyluso a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn ein gweithlu, ac i wella dealltwriaeth, darpariaethau a hyrwyddo'r iaith, byddwn ni'n gwneud y canlynol:

- Cynnwys y Gymraeg fel rhan o raglen ymsefydlu CITB a gaiff ei gyflwyno i holl staff newydd ar draws CITB;
- Trefnu sesiynau briffio a hyfforddiant i dimau penodol sy'n ymwneud yn rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru i gynyddu ymwybyddiaeth o ofynion a chyfrifoldebau dwyieithog;

- Creu a dosbarthu pecynnau cymorth i staff sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith ac o fewn eu gwaith;
- Cynhyrchu geirfa a llyfryn o ymadroddion ar gyfer cynnal sgwrs sylfaenol yn y Gymraeg, ac i hwyluso ac annog siaradwyr di-gymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith

Byddwn yn sicrhau ein bod yn asesu sgiliau iaith Gymraeg gweithwyr yng Nghymru er mwyn bodloni gofynion ein gwasanaeth Gymraeg.

Rydym ni'n annog staff i siarad Cymraeg ar bob achlysur posibl ac yn cefnogi staff i wella eu sgiliau iaith, p'un a ydynt yn ddysgwyr neu'n siaradwyr Cymraeg rhugl. Byddwn ni'n meithrin agwedd gadarnhaol tuag at ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a byddwn ni'n chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo a datblygu defnydd o'r Gymraeg ymhlith ein staff (er enghraifft Dydd Santes Dwynwen, Dydd Miwsig Cymru Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Dylan Thomas, Shwmae SuMae ayb).

Rydym wedi paratoi, a byddwn ni'n parhau i ddiweddarau, cynllun gweithredu manwl, a fydd ar waith ar y cyd a'r cynllun. Daw'r cynllun gweithredu hwn i rym ar y dyddiad y daw'r Cynllun i rym. Mae'r cynllun yn cynnwys targedau, terfynau amser ac adroddiad ar gynnydd yn erbyn pob targed.

Caiff y Cynllun ei hyrwyddo i'n staff, ac i'r cyhoedd yng Nghymru. Caiff ei gyhoeddi ar ein gwefan, ac ar wefan Comisiynydd y Gymraeg.

Byddwn ni'n cynnal unrhyw fath o gysylltiad â'r cyhoedd yng Nghymru nad yw'n cael ei gwmpasu'n benodol yn y Cynllun hwn mewn ffordd sy'n gyson ag egwyddorion cyffredinol y Cynllun hwn.

1.29. MONITRO AC ADOLYGU

Bydd CITB yn strwythuro'r broses monitro ac yn paratoi adroddiad cynnydd mewnol ar weithrediad y Cynllun i'w gyflwyno i'r tîm rheoli. Bydd hyn yn cael ei gynnal bob chwe mis.

Bydd Tîm Gweithredol CITB yn derbyn adroddiad cydymffurfio blynyddol a fydd yn eu galluogi i ateb y ddau gwestiwn sylfaenol canlynol:

- A yw CITB yn cydymffurfio â'r Cynllun?
- Pa mor dda y mae'n cyflawni hyn?

Wrth wneud hyn, bydd yr adroddiad yn ymdrin â:

- Gwasanaethau gweinyddol cyfrwng Cymraeg CITB
- Asesu themâu allweddol wrth weithredu'r Cynllun, gan gynnwys cyfraniad CITB at ddatblygu darpariaethau Cymraeg/dwyieithog
- Digonolrwydd sgiliau ieithyddol CITB i gyflawni gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg

Gofynnir yn achlysurol hefyd am farn siaradwyr Cymraeg am ystod ac ansawdd y gwasanaethau Cymraeg a Saesneg a ddarperir gan y sefydliad.

Bydd monitro'r Cynllun yn weithgaredd strwythuredig a pharhaus ac os bydd yr adroddiad yn canfod unrhyw wendidau, bydd CITB yn paratoi cynllun gweithredu a fydd yn unioni'r sefyllfa.

Bydd copi o'r adroddiad uchod yn cael ei anfon wedyn at Gomisiynydd y Gymraeg.

1.30. CWYNIION, AWGRYMIADAU A PHWYNT CYSWLLT

Bydd CITB yn mabwysiadu trefn gwyno i ymdrin â chwynion ynghylch y Cynllun fel rhan o drefn gwyno gyffredinol CITB drwy gysylltu â Chyfarwyddwr Ymgysylltu CITB Cymru ar feedback@citb.co.uk.

Bydd CITB yn croesawu ac yn cofnodi unrhyw gwynion neu awgrymiadau ar gyfer gwella'r gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd. Ysgrifennwch at Gyfarwyddwr Ymgysylltu Cymru: CITB, Sand Martin House, Bittern Way, Fletton Quays, Peterborough, PE2 8TY neu e-bostiwch feedback@citb.co.uk.

Rheolaeth Fersiwn

Fersiwn:	Dyddiad:	Awdur	Newid
Drafft 1.0	03 Tachwedd 2021	Helen Jones	Polisi newydd
Terfynol, 1.0	25 Ionawr 2022	Helen Jones	Newidiadau/Changes
Drafft 2.0	15 Gorffennaf 2022	Lowri Huws Jones & Helen Jones	Newidiadau/Changes
Terfynol, 2.0	01 Awst 2022	Helen Jones	Newidiadau/Changes
Terfynol, 2.0	04 Awst 2022	Helen Jones	Cyfieithu